# MANSEL, Syr ROBERT (1573 - 1656), llyngesydd

**Enw:** Robert Mansel
**Dyddiad geni:** 1573
**Dyddiad marw:** 1656
**Priod:** Anne Mansel (née Roper)
**Priod:** Elizabeth Mansel (née Bacon)
**Rhiant:** Jane Mansel (née Somerset)
**Rhiant:** Edward Mansel
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llyngesydd
**Maes gweithgaredd:** Milwrol
**Awduron:** William Llewelyn Davies, Aled Eames

Pedwerydd (chweched?) mab Syr Edward Mansel (a fu farw 1595), Penrice, Oxwich, a Margam, trwy ei wraig, Lady Jane Somerset, merch Henry, ail iarll Worcester. Y mae ei yrfa, a ddisgrifir yn y *D.N.B.*, yn cyffwrdd hanes Lloegr yn fwy na hanes Cymru. Eithr y mae'n werth dwyn ar gof fod, yn herwydd priodas ei nai Syr Lewis Mansel, gysylltiad teuluol rhwng tylwyth Syr Robert a theulu Gamage, Coety, Sir Forgannwg, ac felly â'r arglwydd Howard, arglwydd lyngesydd, sef y gwr y dywedir i Mansel fynd i'r môr gydag ef ar gychwyn ei yrfa. Bu'n gwasnaethu yn yr ymgyrch ar Cadiz, cafodd ei urddo'n farchog yn 1596, a threuliodd flynyddoedd lawer yn y llynges; gwnaethpwyd ef yn drysorydd iddi yn 1604. Fe'i taflwyd i garchar y Marshalsea yn 1613 oherwydd achwyn rhagddo ei fod yn euog o ryw anniddigrwydd gwleidyddol; yn 1618, fodd bynnag, cafodd ei wneuthur yn is-lyngesydd Lloegr ac yn 1620-1 yr oedd yn gwneuthur cyrchoedd ar Algiers.

Ymdrinir â gwaith Mansel fel Trysorydd y Llynges, ei gyswllt â Syr John Trevor a Syr Thomas Button a hefyd â Phineas Pett y saer llongau, yn rhai o gyhoeddiadau'r ' Navy Records Society ' - (i) *Two Discourses of the Navy - The Navy Ript and Ransact* gan John Hollond, 1659, a *A Discourse on the Navy*, gan Syr Robert Slyngesbie, gol. Tanner, 1896; (ii) *The Autobiography of Phineas Pett*, gol. Perrin, 1918; (iii) *The Naval Tracts of Sir William Monson*, gol. Oppenheim, pum cyfrol, 1902-14.

Sylwer bod y dogfennau cyfoes hyn yn rhoi lle i gredu nad 'dyrchafiad' gwirioneddol oedd penodiad Mansel (1618) yn islyngesydd - yn hytrach, fe'i symudwyd yn fwriadol i swydd lai dylanwadol, yn herwydd ei anonestrwydd yn 1604-18. Ymddengys nad heb sail y cyhuddwyd ef; eto, cadwodd ffafr y brenin ar waethaf methiant truenus ei gyrch ar Algiers yn 1621.

Bu'n aelod seneddol droeon - dros King's Lynn 1601, Caerfyrddin 1603, sir Gaerfyrddin 1614, sir Forgannwg 1623 a 1625, Lostwithiel 1626, a sir Forgannwg drachefn 1627-8.

O'r flwyddyn 1618 bu Syr Robert yn ymddiddori mewn gwneuthur gwydr a llestri gwydr; cawsai gyfran o'r monopoli yn y gwaith hwnnw y flwyddyn honno. Cyfeirir yn fyr at hyn yn y *D.N.B.*, eithr ceir manylion llawnach gan C. A. Maunsell ac E. P. Statham yn *Hist. of the Family of Maunsell (Mansell, Mansel)*, i, pen. xii. Pan fu Tyr Cyffredin yn ystyried Mesur y Monopolïau yn 1624 gwnaeth Syr Robert ddatganiad y gellir casglu oddi wrtho iddo geisio sefydlu ffatrïoedd mewn gwahanol leoedd - Llundain, Ynys Purbeck, Aberdaugleddau, dyffryn Trent. Dywed John Brand (*Hist. of Newcastle*): ' We may venture to fix the beginning of the glass-works upon the Tyne about A.D. 1619, where they were established by Sir Robert Mansell. ... The cheapness of sea-coal was no doubt his chief inducement for erecting them at so great a distance from London. '

Y mae'r cyfeiriad at 'sea-coal' yn bwysig. Gan fod Syr Robert yn defnyddio 'sea-coal' yn lle coed (fel tanwydd) yr oedd ei fonopoli i raddau helaeth yn rhoddi iddo hawl wirioneddol i'w batent; serch hynny yr oedd yn wastad yn gorfod amddiffyn ei batent rhag y rhai a geisiai ei gamddefnyddio a rhag y rheini a oedd yn gwrthwynebu monopolïau fel y cyfryw; am fanylion gweler Maunsell a Statham, op. cit.; yn yr un gwaith ceir copi ffacsimile o wyneb-ddalen ac adargraffiad o gynnwys llyfr gan y llyngesydd, sef *A Trve Report of the Service done vpon Certaine Gallies passing through the Narrow Seas; Written to the Lord high Admirall of England, by Sir Robert Mansell Knight, Admirall of her Maiesties forces in that place* (London, 1602).

Bu Syr Robert farw yn 1656 - gweinyddwyd ei ewyllys ar 20 Mehefin y flwyddyn honno gan ei weddw. Bu'n briod ddwywaith: (1) cyn 1600, ag Elizabeth, ferch Syr Nicholas Bacon, arglwydd geidwad y sêl fawr; a (2), 1617, ag Anne, ferch Syr John Roper. Ni adawodd blant.

## Awduron

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

**Aled Eames**

## Ffynonellau


Enwyd y ddwy brif ffynhonnell yn yr erthygl

*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r cyfeiriadau a nodir yno

C. A. Maunsell a E. P. Statham, *History of the family of Maunsell (Mansell, Mansel)* (London 1920), i, 349-467, a'r cyfeiriadau a nodir yno


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 96033457

Wikidata: Q7347323

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu